OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 903 (Cy. 219) (C. 74)

# UNDEBAU LLAFUR, CYMRU

## Gorchymyn Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 (Cychwyn) 2017

*Gwnaed - - - - 11 Medi 2017*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 3 o Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 (Cychwyn) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017.

**Cychwyn**

**2.** Daw adrannau 1 a 2 o'r Ddeddf i rym ar 13 Medi 2017.

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

11 Medi 2017

(**1**) 2017 dccc 4.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn adrannau 1 a 2 o Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017. Daw'r darpariaethau hyn i rym ar 13 Medi 2017.